Ysgol Croesyceiliog

Cydlynydd Dysgu

Pecyn Recriwtio





Cyflwyniad

Croeso i Ysgol Croesyceiliog

Croeso i Ysgol Croesyceiliog a diolch am ystyried gwneud cais am y swydd hon. Er mwyn eich cynorthwyo gyda'ch cais, roeddwn i'n credu y byddai'n ddefnyddiol petawn i'n rhoi cyflwyniad byr i chi, i'n hysgol.

Wrth i ni edrych ymlaen at flwyddyn academaidd 2026/27, rydyn ni'n dechrau ar y cam nesaf yn ein datblygiad yn llawn hyder ac uchelgais. Rydyn ni'n adeiladu ar y cryfderau sylweddol a nodwyd gan Estyn yn adroddiad ein harolygiad yn ddiweddar - yma, ac mae ein ffocws nawr ar sicrhau rhagoriaeth ar draws pob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Rydyn ni'n benderfynol o gynnal y safonau uchel a'r diwylliant cynhwysol sy'n diffinio Ysgol Croesyceiliog, a hefyd i barhau i arloesi, mireinio a gwella fel bod pob disgybl, pob aelod o staff a phob teulu yn profi'r gorau y gallwn ei gynnig. Roedd canfyddiadau'r arolygiad yn ddiweddar yn cydnabod cryfder ein cymuned gynhwysol, y berthynas gadarnhaol rhwng staff a disgyblion, ein hymrwymiad i lesiant a diogelu, a'r gwelliannau parhaus a welwyd mewn ymddygiad a phresenoldeb ac yng nghanlyniadau disgyblion.

Mae Ysgol Croesyceiliog yn ysgol lle mae dysgu yn agor cyfleoedd, mae uchelgais yn cael ei feithrin, a phob unigolyn yn cael ei werthfawrogi. Rydyn ni'n falch o ddarparu addysg sy'n annog twf personol trwy gwricwlwm deinamig, addysgu o ansawdd uchel a darpariaeth ragorol ar gyfer cynhwysiant, gofal bugeiliol a llesiant disgyblion. Braint i mi yw arwain corff o staff medrus ac ymroddgar iawn sy'n rhannu cred gyffredin na ddylai fod terfyn ar yr hyn y gall ein disgyblion ei gyflawni.

Wrth wraidd ein hysgol mae yna dri gwerth sy'n syml ond yn bwerus:

- Ein Nod yw **Dysgu.**
- Rydyn ni'n Disgwyl **Parch**
- Rydyn ni'n Cymeradwyo **Uchelgais.**

Mae'r gwerthoedd hyn wrth wraidd popeth a wnawn ac yn siapio profiadau ein disgyblion a'n staff. Trwy ddysgu, rydym yn datblygu pobl ifanc hyderus a galluog sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwytnwch i ffynnu mewn byd sy'n newid yn barhaus. Trwy barch, rydym yn meithrin cymuned groesawgar a chynhwysol lle mae perthnasoedd cadarnhaol, gofal ac ymdeimlad o berthyn yn galluogi pob unigolyn i deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi. Trwy uchelgais, rydym yn annog disgyblion i gofleidio cyfleoedd, herio eu hunain a chyflawni eu potensial llawn.

Y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, mae ein rhaglen gyfoethog o gyfleoedd chwaraeon, diwylliannol, cerddorol a chyfoethogi yn helpu disgyblion i ddatblygu eu doniau, ehangu eu gorwelion a magu hyder ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol. Rydym eisiau i bob unigolyn ifanc adael Ysgol Croesyceiliog yn unigolion gwydn, uchelgeisiol sy'n edrych tuag allan, ac sy'n barod i wneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.

Mae ein staff yn ganolog wrth gyflawni'r weledigaeth hon. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel a meithrin diwylliant o gydweithio a gwella'n barhaus, gan sicrhau bod staff a disgyblion yn elwa ar y cyfleoedd gorau oll.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau archwilio'r pecyn recriwtio hwn a dysgu mwy am ein hysgol. Mae ein disgyblion wrth galon popeth a wnawn, ac rydym yn credu'n gryf fod pob aelod o'n cymuned yn bwysig.

Os ydych chi'n rhannu ein gwerthoedd, ein hymrwymiad i ragoriaeth a'n huchelgais ar gyfer pobl ifanc, edrychaf ymlaen yn fawr at dderbyn eich cais a'ch croesawu i Dîm Croesy.



Alun Davies

Pennaeth Dros Dro

Amdanom ni

Gweledigaeth, Ethos a Gwerthoedd





Yma yng Nghroesyceiliog rydyn ni wedi ymrwymo fel ysgol i greu amgylchedd dysgu cynhwysol, diogel a hapus. Mae ein staff rhagorol yn cynnig y lefel gywir o her a chefnogaeth sy'n caniatáu i bawb ffynnu a chyflawni eu potensial. Rydyn ni hefyd yn credu y dylai ein partneriaeth hynod effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref fod yn sail i bopeth a wnawn.

Nodwedd allweddol o'n hysgol yw ein bod yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd dysgu sy'n cyfoethogi ac sy'n ddifyr. Rydyn ni'n darparu cwricwlwm cyfoethog sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac yn darparu addysgu o ansawdd uchel gan sicrhau ein bod yn darparu ar gyfer talent a galluoedd pob disgybl. Rydyn ni'n disgwyl i'n disgyblion ragori'n academaidd ond hefyd yn gymdeithasol, gan ddatblygu sgiliau ehangach sy'n caniatáu iddynt ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu hoes.

Mae dysgu wrth galon popeth a wnawn yn Ysgol Croesyceiliog ac wedi'i sefydlu'n gadarn yn ngweledigaeth ein hysgol.

Yn Ysgol Croesyceiliog, rydyn ni'n ymdrechu i ddarparu cyfleoedd dysgu sy'n cyfoethogi ac sy'n ddifyr, yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, er mwyn datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r rhinweddau sydd eu hangen ar ein disgyblion i fyw bywydau llwyddiannus. Rydyn ni'n dysgu gyda'n gilydd i fod yn ddinasyddion caredig sy'n parchu eraill ac yn gwneud dewisiadau cadarnhaol. Ein huchelgais yw tanio angerdd am ddysgu gydol oes.

Mae ein maniffesto dysgu yn gosod ein disgwyliadau clir ar gyfer holl aelodau cymuned yr ysgol ac yn canolbwyntio ar Ddysgu, Parch ac Uchelgais.
Mae llesiant yn sail i bopeth a wnawn ac mae hyn yn cyfrannu at ein hethos cadarnhaol iawn. Rydyn ni'n ymdrechu i ddatblygu dinasyddion ifanc sy'n foesegol wybodus, yn fentrus, yn greadigol, yn iach ac yn hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaol fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Mae Ysgol Croesyceiliog yn ysgol gynhwysol, ofalgar sy'n meithrin ei disgyblion. Mae staff yn cefnogi pob disgybl. Mae yno ymdeimlad amlwg o berthyn a chymuned.

Estyn, 2025

Y Maniffesto Dysgu

Diwylliant o ddisgwyliadau uchel ym mhopeth a wnawn







Mae Ysgol Croesyceiliog yn ysgol hapus a ffyniannus. Rydyn ni'n falch iawn o ymdrechion ein disgyblion a'n staff. Fodd bynnag, mae ein staff yn gweithio'n ddiflino i adeiladu ar ein llwyddiannau ac i helpu i godi perfformiad lle gallai fod angen hyn fel bod myfyrwyr yn cyflawni eu potensial llawn.

Ein nod yw dysgu:

- Rydyn ni'n deall bod dysgu yn digwydd ym mhobman ac yn paratoi ar gyfer y dyfodol.
- Mae ein cwricwlwm yn datblygu'r pedwar diben craidd ac yn annog doniau pob un yn yr ysgol, yn eu hysgogi ac yn eu datblygu'n weithgar.
- Rydyn ni'n disgwyl i'n dysgwyr fod yn gydweithredol ac yn chwilfrydig ac i gwestiynu.
- Rydyn ni'n gwerthfawrogi llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ac yn deall sut maen nhw'n sail i'n gwybodaeth a'n sgiliau ar gyfer pob pwnc.
- Rydyn ni'n cynllunio profiadau sy'n boddhau, yn meithrin chwilfrydedd, ac yn ennyn rhyfeddod.
- Rydyn ni'n deall bod methiant yn rhan o'r siwrnai ddysgu.
- Datblygu wytnwch ac annibyniaeth yn ein dysgu.

Rydyn ni'n disgwyl parch:

- Mae cydberthnasau yn seiliedig ar barch i'r ddwy ochr, empathi a chynhesrwydd.
- Rydyn ni'n gwerthfawrogi ein lle yn ein cymuned, fel dinasyddion Cymru ac fel dinasyddion byd-eang.
- Mae gan ein cymuned ymdeimlad o berthyn a balchder.
- Rydyn ni'n mwynhau gweithio gydag eraill, datrys problemau a chwestiynu.
- Rydyn ni'n modelu ymddygiad parchus, diogel.

Rydyn ni'n cymeradwyo uchelgais:

- Rydyn ni'n cydnabod gwaith caled ac ymdrech barhaus ac yn deall bod hyn yn arwain at gyflawniad.
- Rydyn ni'n credu ym mhotensial ein holl ddysgwyr.
- Rydyn ni'n mwynhau herio ac yn uchelgeisiol ar gyfer eraill a ni'n hunain.
- Rydyn ni'n disgwyl i bawb yn ein cymuned gael disgwyliadau sy'n gyson uchel.
- Rydyn ni'n ysbrydoli ein gilydd gyda'n gweithredoedd a'n geiriau.
- Bydd gennym ethos nodedig o gyflawniad yr ydym yn ei rannu.

Mae staff Ysgol Croesyceiliog yn cydweithio'n agos i greu diwylliant o barch. Mae hyn yn nodwedd ganolog yn eu 'Maniffesto Dysgu'.

Estyn, 2025

Buddion i Staff

Ein cynnig fel cyflogwr

Rydyn ni eisiau sicrhau ein bod yn denu'r staff gorau i weithio yn Ysgol Croesyceiliog i gefnogi ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer yr ysgol ac, yn bwysicaf oll, ar gyfer ein holl fyfyrwyr.

Rydyn ni hefyd yn gwneud popeth posibl i fod yn gyflogwr rhagorol. Mae rhai o'r manteision penodol sydd ar gael i'r holl staff yn cynnwys:





Mae Ysgol Croesyceiliog yn gymuned groesawgar a chefnogol y mae disgyblion a staff yn falch o fod yn perthyn iddi.
Mae perthnasoedd cadarnhaol yn gryfder nodedig ac arweinwyr yn llwyddo i flaenoriaethu llesiant staff a disgyblion.

Estyn, 2025

Siarter Llesiant Staff

Mae gennym siarter llesiant staff fel ymrwymiad ffurfiol i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant yn y gwaith i bob aelod o staff ac mae'n canolbwyntio ar lesiant staff, llais staff a chydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

Cynllunio, paratoi ac asesu (CPA)

Rhown fwy na'r lleiafswm o 10% o amser cynllunio a pharatoi i staff addysgu i sicrhau bod ganddynt gymaint o amser â phosibl i gynllunio gwersi difyr.

Dysgu proffesiynol o'r ansawdd uchaf

Mae'r ysgol yn buddsoddi yn yr hyfforddiant gorau ar gyfer ei holl staff addysgu a chymorth. Mae ein holl athrawon a nifer fawr o staff cymorth yn rhan o brosiect ymchwil proffesiynol, sy'n adnabod y strategaethau mwyaf effeithiol i gael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau a'r ddarpariaeth i ddisgyblion.

Gwefru Ceir Trydan

Rydyn ni'n cael nifer o bwyntiau gwefru ceir trydan wedi'u gosod fel bod staff yn gallu gwefru eu ceir trydan yn ystod y diwrnod ysgol,

Buddion yr Awdurdod Lleol

Mae'r buddion i staff sy'n weithio i ALl Torfaen yn cynnwys y cynllun Beicio i'r Gwaith, a cherdyn Vectis sy'n rhoi mynediad i amrywiaeth o ostyngiadau.

Llesiant Staff

Mae gennym sesiwn friffio wythnosol i staff a chylchlythyr llesiant staff misol sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer staff, dolenni i wefannau defnyddiol a gwybodaeth am weithgareddau staff fel ras elusennol Hanner Marathon Caerdydd.

Mae staff yn cael mynediad am ddim i ap y **Gwasanaeth Cynghori Ysgolion (SAS)**a gallant drefnu apwyntiadau meddygol a chwnsela am ddim trwy wasanaeth a ariennir gan ysgolion.

Mynediad am ddim i'n hystafell ffitrwydd ar y safle

Caiff pob aelod o staff fynediad i'n hystafell ffitrwydd, gydag amrywiaeth o beiriannau gwrthiant a chardiofasgwlaidd.

Te a choffi am ddim

Caiff pob aelod o staff de a choffi am ddim a lluniaeth trwy gydol y dydd. Mae hyn yn cynnwys bwyd.

De-ddwyrain Cymru

Byw a gweithio









Mae byw a gweithio yng nghwm gwyrdd gwefreiddiol Cwmbrân ac yn agos at Fannau Brycheiniog, yn cynnig y gorau o ddau fyd. Cewch fwynhau byw yng nghefn gwlad a bod yn agos at amwynderau lleol a nifer o ddinasoedd ar yr un pryd.

Mae Croesyceiliog ychydig filltiroedd i ffwrdd o ddinas fyrlymus Casnewydd, sy'n golygu bod dros 170 o siopau, bwytai a bariau o fewn cyrraedd hwylus yn ogystal â llu o ddigwyddiadau rhyngwladol fel Cwpan Ryder a gynhelir yng Ngwesty'r Celtic Manor. Mae Caerdydd yn daith fer i ffwrdd yn y car, ac mae prifddinas Cymru yn cynnig cyfleoedd rhagorol am swyddi. Mae wedi gweld twf sylweddol mewn cyflogaeth ac yn cynnig amrywiaeth o gyflogwyr cenedlaethol a rhyngwladol mawr, wedi'u lleoli yn ardal y ddinas a'r cyffiniau. Fel prifddinas Cymru, mae Caerdydd yn elwa ar gyflogwyr mawr fel Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn ogystal â llawer o bencadlysoedd DU a Chymru ar gyfer sefydliadau fel y BBC ac elusennau fel Barnardo's.

Digwyddiadau

Mae Croesyceiliog o fewn cyrraedd hwylus i ddwy ddinas ffyniannus Caerdydd a Bryste, ac mae'r ddwy yn cynnig lleoliadau perfformio o'r radd flaenaf sy'n denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae Stadiwm Principality, Arena Motorpoint, Canolfan Mileniwm Cymru a Neuadd Dewi Sant yn ymfalchïo mewn digwyddiadau chwaraeon, cerddoriaeth a diwylliannol rhyngwladol. Gall Caerdydd hawlio rhai o'r digwyddiadau gorau sydd gan y DU i'w cynnig. Mae Caerdydd a Bryste yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau rhyngwladol a rhanbarthol, sy'n denu pobl o bob oed a chwaeth. O artistiaid byd-enwog a digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol, i wyliau bwyd a diod lleol, fe fydd rhywbeth i'ch cadw'n brysur ar bob adeg.

Teithio

Mae'n hawdd ac yn gyflym mynd o le i le, sy'n golygu bod y daith ddyddiol i'r gwaith ac yn ôl yn llai o faich. Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth i Groesyceiliog a'r ysgol yn benodol, yn dda iawn. Yn ganlyniad, mae nifer sylweddol o staff yn teithio o leoedd fel Caerdydd, Casnewydd, Bryste a thu hwnt. Ar yr un pryd, mae yna nifer dda o staff sy'n byw yn y gymuned leol.

Y ddinas agosaf yw Casnewydd (5 milltir i ffwrdd) a dros y degawd diwethaf mae Caerdydd wedi cael ei hadfywio'n llwyr. Gallwch gael mynediad i'r holl gyfleusterau a ddisgwylir mewn unrhyw brifddinas fodern heb y straen o fyw mewn jyngl concrit sydd dan ei sang. Mae'n ddinas ifanc sy'n gryno, yn fywiog, yn gosmopolitan - ac yn cynnig gwerth gwych am arian.

Mae Caerdydd 20 munud i ffwrdd. Mae Bryste yn daith fer yn y car ar draws Pont Hafren, a Llundain dim ond 2 awr i ffwrdd; mae'n cymryd 2 awr i gyrraedd Birmingham a 35 munud i gyrraedd Bryste.

Mae Meysydd Awyr Bryste a Chaerdydd 30 milltir o'r ysgol.

Ystyrir Caerdydd fel y 'drydedd brifddinas orau' yn Ewrop. Arolwg am yr Undeb Ewropeaidd

Gwybodaeth

Gwybodaeth am y Rôl



Mae Croesyceiliog yn chwilio am Gydlynydd Dysgu i ymuno â'n tîm ymroddgar o weithwyr proffesiynol. Dyma gyfle cyffrous i fod yn rhan o dîm cryf a phrofiadol mewn ysgol uchelgeisiol dros ben sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ddarparu pob cyfle posibl i ddisgyblion berfformio ar eu gorau.

Fel Cydlynydd Dysgu, byddwch yn chwarae rhan ganolog wrth sicrhau parhad dysgu yn ystod absenoldebau tymor byr staff addysgu. Byddwch yn goruchwylio dosbarthiadau cyfan, yn cyflwyno deunyddiau gwersi a baratowyd ymlaen llaw, yn cadw trefn dda, ac yn sicrhau bod disgyblion yn cadw ar dasg ac yn ymgysylltu â'u dysgu. Er nad yw'r rôl yn cynnwys cynllunio neu asesu ffurfiol, byddwch yn rhoi esboniadau clir, yn modelu dysgu lle bo hynny'n briodol, ac yn cynnig adborth ar lafar i gefnogi cynnydd disgyblion.



Byddwch yn creu ac yn cynnal amgylchedd dysgu cadarnhaol, pwrpasol, gan hyrwyddo disgwyliadau uchel o ran ymddygiad, ymdrech ac agweddau at ddysgu. Byddwch yn gweithio ar draws ystod o bynciau, a bydd angen i chi allu addasu a bod yn hyderus wrth arwain grwpiau o bobl ifanc, a gallu ymateb i gwestiynau a chamargraffiadau disgyblion wrth iddynt godi. Byddwch hefyd yn rhoi adborth i staff addysgu am ymgysylltiad disgyblion a'u cynnydd, gan helpu i gefnogi addysgu a dysgu effeithiol ar draws yr ysgol.

Y tu hwnt i oruchwylio yn yr ystafell ddosbarth, byddwch yn cyfrannu at waith ehangach yr ysgol, gan gynnwys rhoi cymorth gweinyddol pan nad oes angen rhywun i gyflenwi, a chefnogi blaenoriaethau ysgol-gyfan fel llythrennedd, rhifedd, a defnyddio TGCh. Mae'r rôl yn gofyn am safon addysg dda, sgiliau cyfathrebu cryf, a phrofiad o weithio gyda phobl ifanc, ochr yn ochr â'r gallu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol, dangos gwytnwch, a gweithio'n effeithiol yn rhan o dîm.

Disgwylir i Gydlynwyr Dysgu gynnal gwerthoedd yr ysgol ar bob adeg, gan gefnogi datblygiad personol disgyblion a'u dyheadau, a dangos ymrwymiad i ddiogelu, cynhwysiant a dysgu proffesiynol parhaus.

Mae ein hadroddiad diweddar yn dilyn arolygiad Estyn ar gael yma.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda. Maent yn aeddfed, yn groesawgar ac yn dangos parch tuag at oedolion, ymwelwyr a'i gilydd.

Estyn, 2025

Y Camau Nesaf

Rhagor o wybodaeth









Dull Penodi

Gofynnwn yn garedig i chi gyflwyno cais trwy lenwi'r ffurflen gais briodol ac, ar dim mwy na dwy ochr A4, gynnwys datganiad ategol yn adran 16 ar ffurflen gais yr ALl sy'n bodloni'r fanyleb person ac yn amlinellu eich:

- rhesymau dros wneud cais am y swydd hon ac esboniad o'r hyn y byddwch chi'n ei gyflwyno i'r rôl;
- profiadau hyd yma sydd, yn eich barn chi, yn eich gwneud chi'n ymgeisydd addas ar gyfer y rôl hon; a
- chryfderau, yn bersonol ac yn broffesiynol.

Dylid cwblhau ceisiadau yn electronig.

Os nad ydych wedi clywed gan yr ysgol o fewn wythnos i'r dyddiad ar gyfer tynnu'r rhestr fer, yna byddai'r panel dethol wedi dewis ymgeiswyr eraill, y maent yn credu eu bod yn gweddu orau i'r proffil ar gyfer y swydd hon.

Er bod yr ysgol yn sicrhau bod pob ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael adborth am eu perfformiad, yn anffodus, nid yw'r ysgol yn gallu rhoi adborth am geisiadau eraill.

Mae croeso i chi anfon neges trwy e-bost at Gynorthwyydd Personol y Pennaeth, Mrs Vicky Meddick - info@croesy.schoolsedu.org.uk os hoffech ragor o wybodaeth.

Geirda

Gofynnir i chi roi enw dau ganolwr. Dylai un ohonynt fod yn gyflogwr/ Bennaeth arnoch nawr. Byddwn yn cysylltu â chanolwyr yr ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer cyn y cyfweliad.

Llinell Amser Recriwtio

Dyddiad Cau	26ain Tachwedd 2026
Tynnu'r Thestr Fer	27ain Tachwedd 2026
Dyddiad y Cyfweliad	4ydd Rhagfyr 2026
Dyddiad Dechrau	Cyn gynted â phosibl neu 01.01.27

Manylion Cyswllt

Ysgol Croesyceiliog,
Turnpike Road,
Croesyceiliog, Cwmbrân
NP44 2YN

01633 645900

Cyngor i ymgeiswyr

Ambell air o gyngor wrth wneud cais am y swydd

Rydyn ni'n cydnabod y gall ymgeisio am rôl newydd ofyn llawer gennych ac, ar gyfer llawer o swyddi, gall fod yn gystadleuol iawn. Mae'r broses ddethol wedi'i chynllunio i sicrhau bod yr ysgol yn penodi'r unigolyn gorau ar gyfer y rôl. Fodd bynnag, nid yw'n fwriad gennym ei bod yn broses negyddol ac mae'r adran hon wedi'i chynllunio i gefnogi pob ymgeisydd.

Cyn Ymgeisio

Cyn cyflwyno cais, rydym yn argymell eich bod yn gwneud eich ymchwil ymlaen llaw. Ewch i wefan yr ysgol, darllenwch adroddiad ein harolygiad diweddaraf gan Estyn a'r pecyn recriwtio yn fanwl. Meddyliwch yn ddwys a ydych chi'n credu eich bod yn bodloni gofynion y fanyleb person. Os ydych chi'n credu bod y rôl yn addas i chi a'ch sgiliau, yna cyflwynwch gais. Os nad ydych yn credu hynny, yna fwy na thebyg nad yw'n gyfle delfrydol yn y lle cyntaf.

Sgwrs/ymweliadau anffurfiol

Rydyn ni'n annog ymgeiswyr i ymweld â'r ysgol a'n 'gweld ni wrth ein gwaith'. Gall hyn fod yn heriol i ymgeiswyr, yn enwedig gydag ymrwymiadau gwaith ac, ar adegau, oherwydd cyfyngiadau pellter. Fodd bynnag, os nad ydych yn gallu ymweld â ni, rydyn ni'n argymell eich bod yn cysylltu am drafodaeth anffurfiol a chyfrinachol am y rôl. Gallwch gysylltu ag Alun Davies, Pennaeth Dros Dro drwy anfon neges trwy e-bost at ei Gynorthwyydd Personol - v.meddick@croesy .schoolsedu.org.uk ac yna trefnu trafodaeth dros y ffôn. Bydd hyn yn cynnig cyfle i chi holi unrhyw gwestiynau a allai fod gennych am yr ysgol a/neu'r rôl.

Ffurflen Gais

Gall gymryd amser i lenwi'r ffurflen gais, ond mae'n rhan bwysig o'r broses. Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi pob adran, gan gynnwys cymwysterau a hanes cyflogaeth. Dylai'r rhain fod mewn trefn gronolegol, ac mae'n bwysig eich bod yn osgoi gadael unrhyw fylchau neu wybodaeth, er enghraifft graddau/dosbarthiadau cymwysterau, os nad ydych yn rhoi esboniad dros hynny. Er enghraifft, eich hanes cyflogaeth. Hyd yn oed os nad yw'r gwaith yn gysylltiedig ag addysg, gall y setiau sgiliau a enillwyd helpu i ddangos eich addasrwydd yn erbyn y fanyleb person.

Datganiad Ategol

Mae'r datganiad ategol yn ddarn allweddol o dystiolaeth a ddefnyddir i ddangos bod ymgeiswyr yn bodloni'r fanyleb person ar gyfer y rôl. Nid oes gennym adran 'hanfodol' a 'dymunol'. Felly, bydd y panel dethol yn dewis yr ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf orau.

Rydyn ni'n cydnabod y gall ymgeiswyr fod yn ysgrifennu ceisiadau ar gyfer nifer o ysgolion ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae cyngor penodol i helpu yn cynnwys:

- Edrychwch ar y fanyleb person a'r adran camau nesaf yn y pecyn ymgeiswyr. Mae hyn yn esbonio'n ofalus ar beth ddylai'r datganiad ganolbwyntio. Ysgrifennwch eich datganiad yn erbyn y meini prawf;
- Dangoswch eich llwyddiannau a mesurwch y rhain gydag 'effaith'. Mewn geiriau eraill, esboniwch ganlyniad eich gweithredoedd ar gyflawniad myfyrwyr, eu cynnydd a'u llesiant;
- Cystal ag y gallwch, ceisiwch sicrhau bod y datganiad yn bersonol i'r ysgol;
- Nid llythyr yw'r datganiad, felly nid oes angen cynnwys cyfeiriadau ayb. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn eich ffurflen gais.

Ysgol Croesyceiliog





www.croesyceiliog.org.uk